Gwrandewch

Cysyniadau: **Gwrando, meddwl am eraill, rhannu.**

Amcan: **Pwysleisio pa mor bwysig ydi dysgu gwrando.**

Cyfarpar: **Cloch, darn o bapur, offeryn cerdd, dŵr, jwg, cwpan.**

Cyflwyniad:

● Heddiw yn y gwasanaeth rydym am chwarae gêm. Rydw i eisiau i bawb gau eu llygaid yn dynn a byddaf yn gwneud gwahanol synau. Mi ydw i eisiau i chi ddyfalu pa synau fydda i'n eu gwneud. Felly pawb i gau ei lygaid yn dynn.

● Dowch i ni wrando ar y gwahanol synau:
cloch yn canu, curo dwylo, tywallt dŵr i gwpan, chwarae offeryn cerdd, sŵn papur yn cael ei wasgu.

● Agorwch eich llygaid a dywedwch beth glywsoch chi. Cofiwch guddio'r cyfarpar rhag rhoi cliwiau i'r plant!
Tybed ydi'r plant wedi cyfeirio at lais yr arweinydd yn siarad?

● Dowch i ni chwarae'r gêm unwaith yn rhagor ond y tro hwn fydda i ddim yn gwneud synau fy hunan. Gwrandewch ar y synau sydd o'n cwmpas. Cloc yn tician, sŵn siarad yn dod o'r gegin, sŵn car yn mynd heibio ar y stryd, ci yn cyfarth, cadair yn gwichian, plentyn yn pesychu.

● Trafod efo'r plant beth glywson nhw. Y tro hwn roedd yn rhaid gwrando'n astud.

● Fyddwch chi'n gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau yr athrawon a'r rhieni? Dyma stori am eneth o'r enw Gwawr.

Stori:

Roedd Gwawr wrth ei bodd yn chwarae efo lego ei brawd mawr. Pan fyddai Huw yn chwarae rygbi ar fore Sadwrn dyna lle byddai Gwawr ar ei phen-gliniau wrth y bwrdd yn y lolfa yn chwarae efo'r darnau bach i wneud hofrennydd neu lori neu long neu hyd yn oed anghenfil.

'Gwawr!' gwaeddodd ei mam o'r gegin. 'Wnei di ddweud wrth Dad bod ei goffi yn barod yn y gegin?'

'Iawn,' atebodd Gwawr. Ond dal i chwarae efo'r lego roedd hi. Ymhen dim galwodd ei mam unwaith eto. 'Gwawr, wyt ti wedi dweud wrth Dad am ddod i nôl ei goffi?'

'Mi a i rŵan,' atebodd Gwawr. Ond dal i chwarae efo'r lego roedd Gwawr. Daeth ei mam i mewn i'r lolfa ar gefn ei cheffyl.
'Gwawr! Rŵan.'

Cododd Gwawr y munud hwnnw a mynd nerth ei thraed i'r ardd i alw ar ei thad. Pan ddaeth hi'n ôl mi gafodd bryd o dafod gan ei mam.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach gofynnodd ei mam iddi fynd i dŷ ei nain i ddweud y byddai ei mam yn galw am ei nain am bedwar o'r gloch i fynd â hi i weld y meddyg.

Cyn pen dim roedd Gwawr wedi cyrraedd tŷ ei nain.

'Mae Mam yn dweud y bydd hi yma am chwech o'r gloch i fynd â chi i weld y meddyg,' meddai Gwawr.

'Iawn,' meddai Nain. 'Mi fydd hynny'n rhoi amser i mi fynd i siopa.' Ac felly y bu. Aeth Nain i siopa. A dyna lle roedd Gwawr a'i mam yn disgwyl yn y car am bedwar o'r gloch. Ond doedd dim golwg o Nain yn unman. Roedd hi i fod yn y feddygfa am bedwar o'r gloch. Cofiodd Gwawr yn sydyn!

'Mam, sori, ond mi ddywedais i wrth Nain am fod yn barod erbyn chwech o'r gloch.'

Trafodaeth bellach:

- Ydych chi'n debyg i Gwawr? Ddim yn gwrando'n astud?

- Pa mor bwysig ydi gwrando'n astud?

Dyfyniad o'r Beibl:

Dyma ddywedodd Iesu wrth ei ffrindiau gorau:
"Gwrandwch yn ofalus os dych chi'n awyddus i ddysgu!"

Marc 4:9 beibl.net

Emyn: Duw lefarodd wrth ei bobl: Canu Clod 140

Munud i feddwl:

Mi ydw i'n hoffi gwrando. Dyna sut rydw i'n dysgu.

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, diolch am lygaid i weld a chlustiau i glywed. Cofiwn am y rhai sy'n methu gweld ac yn methu clywed. Wnei di'n dysgu ni i wrando'n astud ar yr hyn mae'r athrawon a'n rhieni yn ei ddweud wrthym ni? Amen.